

Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi

21 Medi 2018, y Ganolfan Gwyddorau Bywyd Cofnodion

Yn bresennol: David Notley (DN) (cydgadeirydd)
Rhys Thomas (RT)
David Notley (DN)
Andy Middleton (AM)
Kirsten Bound (KBo)
Ian Brotherston (IB)
Jon Wood (JW)

Ymddiheuriadau: Sue Bale (SB)
Steve Smith (SS)
Helen Swygart (HS)
Dave Wilkes (DW)
Robin Williams (RW)
Kellie Beirne (KB)

Ysgrifenyddiaeth: Alastair Davies (AD)
Philippa Costello (PC)

Siaradwyr Gwadd: David Rosser (DR) (LLC)

| Eitem agenda | | Cam Gweithredu |
|--------------|---|----------------|
| 1 | <p>Croeso</p> <p>Croesawodd DN aelodau'r cyngor i 16^{eg} cyfarfod Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi (CCCA).</p> <p>Trafodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. PC i atgoffa Phil Allen i anfon manylion adnodd ar-lein Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol at y cyngor ar ôl iddo gael ei gwblhau.</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir a chawsant eu cymeradwyo.</p> <p>Cyhoeddodd DN bod Robin Williams wedi ymddeol o'r Cyngor. Diolchodd DN i RW am ei amser, ei ymdrech a'i fewnbwn gwerthfawr dros y 4 blynedd ddiwethaf.</p> <p>Gofynnwyd i'r aelodau presennol nodi a oedd ganddynt achosion uniongyrchol neu anuniongyrchol o wrthdaro rhwng buddiannau yn yr eitemau arfaethedig ar yr agenda. Ni chofnodwyd unrhyw fuddiannau newydd.</p> | PC |
| 2 | <p>Prif Swyddog Rhanbarthol Llywodraeth Cymru (LLC), De-ddwyrain Cymru</p> <p>Eglurodd DR fod y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth wedi cynnig dull newydd yng nghyswllt datblygiad economaidd. Un</p> | |

| | | |
|-----------------|--|--|
| | <p>elfen o'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yw cyflwyno dull rhanbarthol, gan symud oddi wrth y dull presennol seiliedig ar sectorau. Yn unol â hynny, mae 3 Phrif Swyddog Rhanbarthol wedi cael eu penodi ar gyfer De-ddwyrain Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gogledd Cymru. Eglurodd DR fod yr ardal mae'n gyfrifol amdani, sef y De-ddwyrain, yn cynnwys yr un 10 awdurdod lleol â'r rhai sy'n rhan o Fargen Ddinesig Caerdydd.</p> <p>Bydd y dull rhanbarthol newydd o weithio yn seiliedig ar leoedd ac yn canolbwyntio ar sut mae gwella'r economi ym mhob rhan o Gymru, yn hytrach na mewn sectorau yng Nghymru yn unig.</p> | |
| <p>3</p> | <p>Dyfodol CCCA</p> <p>Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar bennu agenda CCCA wrth symud ymlaen.</p> <p>Bydd KB a DN yn ysgrifennu at Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, i wneud cais am gyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am CCCA a'i ddiben, ac i drafod sut gall arloesi a CCCA ei helpu i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth.</p> <p>Gofynnwyd am fewnbwn gan y Cyngor yn ystod yr haf er mwyn diweddarau'r Cylch Gorchwyl presennol. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r hyn fydd CCCA yn ei wneud wrth symud ymlaen. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl a'i gymeradwyo.</p> <p>Trafodwyd swyddogaeth, diben a chylch gwaith y Cyngor, yn ogystal â'i ddilysrwydd a'i berthnasedd, ac fe ganolbwyntiwyd ar yr hyn y gall CCCA ei wneud yn gydweithredol a'r rôl y gallai ei chwarae. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eiriol y rôl arloesi ar sail tystiolaeth; • Gwaith o ran y dyfodol, rhagofal a sganio'r gorwel; • Rôl arwain agweddau a fydd yn cynnwys cydweithio â sefydliadau eraill, e.e. IUK a Nesta, i ddatblygu astudiaethau perthnasol a chomisiynu arolygon ac adroddiadau; • Helpu LLC i droi uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth, mewn perthynas ag arloesedd, yn gamau gweithredu y mae modd eu cyflawni ac ymgymryd â rôl cyngori a dylanwadu; • DN a KB i ddarparu tystiolaeth yng nghyfarfodydd ymchwilio'r Pwyllgor Cynulliad; <p>PC i anfon adroddiad y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Ddiwydiant 4.0 at CCCA. Ar ben hynny, anfon manylion yr adolygiad o Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru gan bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, a'r Cais am Dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad o Arloesi Digidol, at y Cyngor er mwyn i CCCA allu cyflwyno ymateb ffurfiol.</p> <p>Trafodwyd aelodaeth y Cyngor. Roedd yr aelodau presennol yn teimlo bod diffyg cynrychiolaeth o nifer o feysydd pwysig, e.e. Busnesau Bach a Chanolig, diwydiant, Addysg Uwch,</p> | <p>KB a DN</p> <p>PC</p> |

| | | |
|-----------------|---|--|
| | <p>cynrychiolaeth ddaearyddol, arbenigedd o ran rhagofal. O ganlyniad i golli rhai aelodau yn ddiweddar, oherwydd eu bod wedi ymddeol ac ati, cytunwyd y byddai aelodau newydd yn cael eu recriwtio i ymuno â CCCA. DN a KB i lunio rhestr o enwau posibl a allai ymuno â'r Cyngor, er mwyn trafod hynny yn y cyfarfod CCCA nesaf.</p> <p>Cytunwyd dylai CCCA ganolbwyntio ar y gweithgareddau canlynol yn ystod y 6-12 mis nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ehangu aelodaeth CCCA; • Comisiynu darnau byrion o ymchwil/astudiaethau/arolygon; • Ymateb i ymgynghoriadau LLC, yn enwedig y pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau; • Ymgynghori a chysylltu ag amryw o bwyllgorau'r Cynulliad, a'r rhai sy'n canolbwyntio ar arloesedd yn benodol; • Ymgynghori â LLC ac Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â rôl a phwrpas CCCA, a chynnig cyfle i drafod sut gall arloesedd a CCCA helpu i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth. <p>Nodwyd bod allbynnau a metrigau ar goll yn y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth. Cytunwyd y dylai'r Adran Arloesi lunio rhestr o 15-20 o allbynnau a metrigau y byddant yn disgwyl eu gweld er mwyn awgrymu llwyddiant y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ym maes arloesi. Trefnwyd y bydd y rhestr yn cael ei chynnwys ar yr agenda er mwyn ei hystyried a'i hadolygu yng nghyfarfod nesaf CCCA ym mis Tachwedd.</p> | <p>DN a KB</p> <p>AD</p> |
| <p>4</p> | <p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Mae cyfarfod nesaf CCCA wedi'i drefnu ar gyfer 30 Tachwedd 2018, lleoliad i'w gadarnhau.</p> | |